

CYFARFOD: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **22 CHWEFROR 2021**

TEITL: **CYFLWYNO CYLLIDEB UNED GWEINYDDU  
PENSIYNAU AC UNED BUDDSODDI 2021/22**

PWRPAS: **I gyflwyno cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol  
2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r  
Uned Buddsoddi.**

AWDUR: **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Cyllideb 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.
- 1.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Pensiynau'r gyllideb yn eu cyfarfod ar 21ain Ionawr 2021.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	<b>Terfynol 2020/21</b>	<b>Addasiad*</b>	<b>Chwyddiant</b>	<b>Cyllideb 2021/22</b>
Gweithwyr	£657,900	£6,700	£6,940	£671,540
Costau teithio a chynhaliaeth	£1,440	£0	£0	£1,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£248,270	£0	£3,210	£251,480
Gwasanaethau Canolog	£112,800	£0	£1,690	£114,490
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,020,410</b>	<b>£6,700</b>	<b>£11,840</b>	<b>£1,038,950</b>

\*diwrnod gwyliau di dal mae'r Cyngor wedi gwrthdroi

### 2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr uned yma yn cynnwys 18 swydd llawn amser ac 1 swydd rhan amser.

### 2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma yn cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a meddalwedd.

### 2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys 20% o gostau'r Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

### 3. UNED BUDDSODDI

	<b>Terfynol 2020/21</b>	<b>Addasiad*</b>	<b>Chwyddiant</b>	<b>Cyllideb 2021/22</b>
Gweithwyr	£111,375	£432	£1,145	£112,952

\*diwrnod gwyliau di dal mae'r Cyngor wedi gwrthdroi

#### 3.1 Gweithwyr

Mae'r uned yma wedi ei leoli o fewn prif uned Cyllid Canolog felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi ei rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (85%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (80%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (60%)

### 4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

Nid oes cyllideb yn cael ei osod gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blyneddol y Gronfa.

### 5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.